



Eich cyf/Your ref P-05-1142
Ein cyf/Our ref DET/00218/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

17 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth am ddeiseb P-05-1142.

Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith aruthrol ar weithgareddau dan do fel nofio a dosbarthiadau cadw'n heini. Dyna pam, dros y cyfnod clo, un o'r rhesymau prin pam y mae pobl wedi cael gadael eu cartref gennym yw er mwyn ymarfer corff yn yr awyr agored.

Ers dechrau'r pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n glos â'r sector chwaraeon ac â'r holl wasanaethau cyhoeddus, i gefnogi ffyrdd gwahanol o gynnal ac annog gweithgarwch corfforol fel mesur i gefnogi iechyd a lles. Rydym wedi cynnal nifer o gronfeydd a chynlluniau trwy Chwaraeon Cymru, y darparwr chwaraeon yng Nghymru.

Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gronfa adfer chwaraeon a hamdden o £14m ar gyfer 2020-21 i helpu'r sector i wynebu heriau'r pandemig ac i helpu i sicrhau cynaliadwyedd mwy tymor hir. Nod y gronfa adfer chwaraeon a hamdden yw rhoi cefnogaeth hanfodol i glybiau a mudiadau chwaraeon, darparwyr annibynnol a digwyddiadau chwaraeon sydd wedi dioddef yn sgil colli refeniw sylweddol dros y misoedd diwethaf. Mae arian y gronfa yn cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer arloesi yng nghanolfannau hamdden ac ymddiriedolaethau hamdden awdurdodau lleol. Bydd hynny'n ategu'r arian a neilltuwyd o gronfa caledi llywodraeth leol ar gyfer costau uwch ac incwm a gollwyd.

Mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi'r gronfa 'darparwyr preifat' ar gyfer cefnogi darparwyr gweithgarwch corfforol masnachol yng Nghymru. Ceir mwy o wybodaeth yma: <https://www.chwaraeon.cymru/cronfa-darparwyr-preifat-y-sector-chwaraeon/>

Rydym wedi rhedeg cronfa gweithwyr llawrydd chwaraeon ac mae gennym Gronfa Cymru Actif sydd ar agor i glybiau a mudiadau cymunedol di-elw <https://www.chwaraeon.cymru/cronfacymruactif/>. Mae'r holl gronfeydd hyn yn bod i helpu darparwyr i oroesi'r pandemig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer bod yn gorfforol egniïol yn ganolog i sicrhau bod pobl ym mhob rhan o Gymru'n cadw'n iach ac yn dda. Dyma pam, fel rhan o Pwysau Iach: Cymru Iach, y gwnaethon ni fuddsoddi £500k i Chwaraeon Cymru allu datblygu Cynllun Hamdden Actif i Bobl 60+. Bydd hyn yn galluogi Chwaraeon Cymru i barhau i dargedu cyfleoedd gweithgarwch corfforol a chyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ymhlith pobl 60+ oed.

Rwy'n ddiolchgar ichi am eich adborth ac rydym wedi'i ystyried. Rydym yn cydnabod ymdrechion ac aberth anferthol pobl a busnesau Cymru i ddiogelu Cymru ac achub bywydau. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd trwy'r cynadleddau i'r wasg am Covid-19 a thrwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol yn yr wythnosau i ddod.

Gan obeithio y bydd yr wybodaeth yn ddefnyddiol ac yn dangos ichi beth o'r gefnogaeth rydym yn ei darparu.

Yn gywir,



Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism